# Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod Microsoft Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 15 Mai 2023 |
| **Yr aelodau a oedd yn bresennol:** | Rhys A. Jones, Aelod o Fwrdd CNC (Cadeirydd)<br>Dav Letellier, CNC<br>Brad Welch, CNC<br>Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant<br>Nichola Salter, CNC<br>Bernard Griffiths, FUW<br>David Ball, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth<br>Russ Thomas, Hybu Cig Cymru<br>Ieuan S. Davies, CNC<br>Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin<br>Chris R. Thomas, CNC<br>Matthew Walters, Llywodraeth Cymru<br>Einir Williams, Cyswllt Ffermio<br>Kate Snow, United Utilities<br>Sarah Hetherington, CNC |
| **Mynychwyr ychwanegol:** | John Reed, Avara Foods |
| **Ymddiheuriadau:** | Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru<br>Sarah Jones, Dŵr Cymru Welsh Water<br>Fraser McAuley, Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad<br>Marc Williams, CNC |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1: Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1. Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Is-grŵp y Fforwm) bawb i'r cyfarfod Microsoft Teams a nododd yr ymddiheuriadau.

2. Dyma gyfarfod cyntaf Rhys fel Cadeirydd newydd Is-grŵp y Fforwm. Diolchodd Rhys i'r rhai a lwyddodd i fynychu'r cyfarfod anffurfiol yng Nghanolfan Ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian yr wythnos diwethaf – bu'n gyfle gwych i gyfarfod wyneb yn wyneb ac i ddiolch i Zoe Henderson am ei chyfnod fel Cadeirydd.

3. Caiff y cyfarfod ei recordio er mwyn cael cofnod o'r cofnodion. Bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu ar ôl i gofnodion y cyfarfod gael eu cymeradwyo.

4. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau mewn perthynas ag eitemau'r agenda.

    - DS: Mae holl aelodau'r grŵp wedi llenwi ffurflen datgan buddiannau eisoes, ond dylent gyflwyno datganiad os oes ganddynt fuddiannau mewn unrhyw beth arall ar yr agenda hefyd.

## Eitem 2: Cyflwyno'r Aelodau

5. Cafodd y rhai a oedd yn bresennol gyfle i'w cyflwyno'u hunain i Rhys. Yn eu tro, cyflwynodd aelodau'r grŵp eu hunain yn fyr.

6. Dywedodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) mai hwn fydd ei gyfarfod olaf gan y bydd yn ymddeol ym mis Mehefin 2023. Diolchodd Rhys i Bernard am ei gyfraniadau gwerthfawr o fewn y grŵp a dymunodd y gorau iddo ar gyfer ei ymddeoliad.

## Eitem 3: Adolygu'r Cofnodion a'r Camau Gweithredu

7. Ar ôl adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd Rhys y byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC er mwyn i'r cyhoedd allu eu gweld. Felly, mae hi'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

8. Aeth aelodau'r grŵp ati i adolygu cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Mawrth. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ac ni dderbyniwyd unrhyw newidiadau mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Mawrth.

9. Rhannodd Bronwen Martin y cofnod o'r camau gweithredu ac adolygodd y grŵp y camau gweithredu a oedd heb eu cymryd. Cyflwynwyd diweddariadau llafar pan fo modd.

## Eitem 4: Materion sy'n Codi

10. Anogwyd y grŵp i drafod materion a oedd yn deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol, ynghyd â dogfennau perthnasol neu bynciau diweddar.

11. Ni soniodd y grŵp am unrhyw faterion o'r fath.

## Eitem 5: Trafodaeth: Cyfeiriad y grŵp yn y dyfodol

12. Cafwyd cyfle i drafod cyfeiriad y grŵp yn y dyfodol, ynghyd â rhannu syniadau a chynllunio rhagolwg y grŵp.

13. Dywedodd Rhys fod newid cadeirydd yr is-grŵp yn cynnig cyfle i adolygu'r modd yr awn ati i ymdrin â llygredd amaethyddol trwy gyfrwng y grŵp hwn. Mae hefyd yn gyfle da inni bwyso a mesur ble'n union ydym ni a chydnabod y gwaddol mae Zoe Henderson, y cadeirydd blaenorol, wedi'i adael. Ond mae hefyd yn gyfle i feddwl am ffyrdd y gallwn adeiladu ar hyn oll wrth inni symud yn ein blaen.

14. Soniodd Rhys am y syniad o 'gylchdroi' cadeirydd y grŵp. Gallai hynny helpu i bennu blaenoriaethau a byddai modd i'r aelodau gymryd perchnogaeth ar agenda ac eitemau trafod y grŵp am gyfnod arbennig. Gofynnodd Rhys beth oedd barn y grŵp ynglŷn â'r syniad hwn a pha un a fyddai gan yr aelodau ddiddordeb mewn cylchdroi'r cadeirydd.

15. Cytunodd Creighton Harvey ei fod yn syniad da, ond y byddai'n fuddiol ymgyfarwyddo â Rhys yn gyntaf cyn dechrau ar unrhyw drefniant arall. Awgrymodd Creighton y gallai Rhys gadeirio tri neu bedwar o gyfarfodydd, ac y gellid trosglwyddo'r gadeiryddiaeth wedyn i ddwylo cadeirydd arall. Dywedodd Creighton na fyddai'r drefn hon yn gweithio'n fisol ac y byddai pob cadeirydd angen cyfnod penodol wrth y llyw (e.e. tri mis) er mwyn cael elfen o barhad. Cytunodd Rhys y byddai'n dda iddo ddod i ddeall y grŵp a'i gadeirio am dipyn cyn trosglwyddo'r awenau i rywun arall. Byddai cadeirio'r grŵp am dri mis ar y tro yn cynnig cyfle i bennu agendâu ystyrlon gyda themâu penodol.

16. Dywedodd Bernard Griffiths, FUW, na fyddai hyn yn effeithio arno ef gan ei fod ar fin ymddeol, ond bod yna lawer i'w ddweud dros gael un cadeirydd parhaol. Mae pobl yn ymgynefino â'r modd mae un cadeirydd yn cyflwyno ac yn trefnu pethau, yn enwedig yn achos cyfarfodydd Microsoft Teams. Fodd bynnag, ni fyddai hynny mor bwysig pe baem yn derbyn yr awgrym ar gyfer cael Cadeirydd penodol am gyfnod o dri mis.

17. Soniodd Dav Letellier, CNC, fod y grŵp hwn yn cyfarfod bob mis ar hyn o bryd a gofynnodd a oedd y grŵp yn fodlon â mynychder y cyfarfodydd. Dyma amser da i adolygu pa mor aml y dylid cynnal cyfarfodydd (e.e. gormod o gyfarfodydd, dim digon). Dywedodd Rhys y byddai llai o gyfarfodydd yn esgor ar lai o ofynion ar unrhyw Gadeirydd. Ar y cychwyn, roedd Rhys wedi'i synnu braidd bod yr Is-grŵp yn cyfarfod yn amlach na'r prif grŵp, sef Fforwm Rheoli Tir Cymru. Fodd bynnag, mae llygredd amaethyddol a llygredd dŵr ar frig yr agenda wleidyddol ar hyn o bryd – pe baem yn lleihau nifer y cyfarfodydd, ni fyddai hynny'n cyfleu arwydd da iawn. Ond mae mynychder y cyfarfodydd yn fater pwysig y dylid ei ystyried.

    Awgrymodd Creighton fod y rhai sydd wedi bod yn rhan o'r grŵp hwn ers tro yn gyfarwydd ag arddull y cyfarfodydd, felly mae hynny'n annhebygol o newid rhyw lawer. O ran mynychder y cyfarfodydd, dywedodd Creighton ei bod yn bwysig inni gyfarfod yn rheolaidd, a bod cyfarfod bob mis yn briodol. Nid ydym byth yn cael anhawster i lenwi'r agenda. Hefyd, rydym yn gweithio mewn maes sy'n newid yn gyflym, er enghraifft rheoliadau, ymgynghoriadau a'r amryfal adolygiadau a gynhelir. Mae hi'n bwysig i'r grŵp hwn gyfarfod bob mis, oherwydd mae'n lle gwych i gyfnewid gwybodaeth.

18. Dywedodd Ieuan Stephen Davies, CNC, fod cyfarfodydd misol yn briodol ond y dylid cael cyfle i gyfarfod yn amlach pan fo angen (e.e. yn achos grŵp gorchwyl a gorffen

sy'n gweithio tuag at derfynau amser neu sy'n gweithio ar amryfal gamau gweithredu sydd wedi deillio o'r grŵp).

19. Dywedodd Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, y byddai'n well ganddo weld parhad o ran cadeirydd – os bydd y cadeirydd yn newid yn aml, yna rhaid ichi ddechrau adeiladu perthynas unwaith eto. O ran mynychder y cyfarfodydd, yn wreiddiol fe'u cynhaliwyd yn fisol gan fod y grŵp yn llunio adroddiad ar gyfer y Gweinidog – sef adroddiad â therfyn amser tynn. Ym marn Dennis, mae mynychder y cyfarfodydd yn dibynnu a yw'r grŵp hwn yn mynd i drafod materion yn ymwneud â mathau eraill o lygredd, megis ffosffadau, amonia, aer glân ac ati. Ar hyn o bryd, mae grwpiau eraill yn ystyried y materion hyn ac yn aml maent yn troedio'r un tir a droediwyd gennym ni. Pe bai'r grŵp hwn yn ysgwyddo llygryddion o bob math, yn sicr byddai angen cynnal cyfarfodydd mynych. Dywedodd Rhys fod y berthynas rhwng y grŵp hwn a grwpiau eraill yn bwynt pwysig a bod angen inni sicrhau nad ydym yn dyblygu gwaith. Mae angen inni feddwl sut gallwn uno gweithgareddau rhai grwpiau. Dywedodd Rhys ei fod yn awyddus i sefydlu rhaglen waith ac y bydd yn bwysig dod â phobl ynghyd o amryfal gefndiroedd er mwyn gallu rhannu syniadau ac, yn y pen draw, er mwyn gallu trafod rhai o'r materion a'r heriau hyn. Bydd rhaglen waith yn helpu i ymdrin â materion a chynhyrchu deunyddiau.

20. Dywedodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, fod manteision ac anfanteision yn perthyn i gylchdroi'r cadeirydd. Fodd bynnag, mae cyfarfodydd y gorffennol wedi bod yn eithaf maith ac mae'r aelodau'n ceisio delio â chyfarfodydd eraill hefyd. Cydnabu Rhys fod y gwahoddiadau calendr yn cynnwys cyfarfodydd pedair awr, ond sicrhawyd ef gan Bronwen nad yw'r cyfarfodydd byth bythoedd yn para cyhyd â hynny. Felly, pe baem yn cynnwys slotiau dwyawr o hyd, byddai hynny'n rhoi hen ddigon o amser i gynnal y cyfarfodydd.

21. Tynnodd Ieuan sylw at y cysylltiad agos â gwaith y Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA a pha mor bwysig yw peidio â dyblygu gwaith. Fe fydd hi'n hanfodol adrodd yn ôl i'r grŵp hwn er mwyn osgoi ailadrodd trafodaethau. Soniodd Ieuan am gysyniad yr economi gylchol mewn perthynas ag amaethyddiaeth. Mae'r Grŵp Technegol Amaethyddol yn ystyried materion yn ymwneud â ffosfforws, ond mewn gwirionedd nid yw'n ymdrin â'r materion ehangach. Gallai'r grŵp hwn ystyried rhai o'r pethau ehangach oddi mewn i'r Grŵp Technegol Amaethyddol er mwyn mynd i'r afael â Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR).

22. Dywedodd Bernard fod y grŵp hwn wedi ymweld â safleoedd yn y gorffennol a'i fod wedi dysgu llawer trwy weld pethau ar waith yn ymarferol. Cytunodd Rhys fod ymweld â safleoedd yn agwedd bwysig ar waith y grŵp, ond mai'r peth allweddol yw cael cydbwysedd iawn rhwng y mathau o gyfarfodydd a gynhelir (e.e. cyfarfodydd rhithwir ar-lein ac ymweliadau wyneb yn wyneb).

23. Gofynnodd Ieuan beth oedd Cylch Gorchwyl y grŵp ac a oedd angen i'r grŵp ddatblygu safbwyntiau byr ynglŷn â phethau fel masnachu maethynnau a rhai pethau arloesol a ddaw i'r amlwg. Yn ôl Rhys, mae hi'n bwysig i'r grŵp gael barn ynglŷn â datblygiadau, materion a heriau. Hefyd, dylai'r grŵp fod â rôl o ran siapio rhai o'r mentrau. Atgoffwyd y grŵp gan Bernard bod y rhanddeiliaid a oedd yn gysylltiedig â'r uwchgynhadledd ffosffadau yn cyfateb i'r rhanddeiliaid sydd wedi ymrwymo i'r cynllun gweithredu, felly rhaid inni fod yn ofalus na cheir unrhyw wrth-ddweud.

24. Crynhowyd y drafodaeth gan Rhys. O ran cylchdroi'r cadeirydd, mae'n ymddangos fel pe bai yna gyfle i ddod o hyd i dir canol. Bydd modd i Rhys barhau fel cadeirydd, ond dros gyfnod o dri mis bydd yn cynnal trafodaethau gyda phob sefydliad penodol a gynrychiolir ar y grŵp er mwyn datblygu rhaglen o weithgareddau a themâu. Yn ôl Rhys, bydd hyn yn ei annog i ymweld â'r aelodau a deall mwy am yr heriau sy'n wynebu pob sefydliad. Yna, bydd modd inni lunio agenda ar y cyd yn seiliedig ar themâu arbennig a bydd modd i'r grŵp drafod yr agenda hon dros gyfnod o dri mis. Bydd hyn yn rhoi cydberchnogaeth dros yr agenda i Rhys fel cadeirydd a bydd pa sefydliad bynnag a gynrychiolir ar y grŵp yn cael cyfle i siapio'r agenda ar y cyd â Rhys. Gellid treialu'r dull hwn. Pe na bai'r dull yn gweithio, gellid aildrafod y mater a gweld a oes yna unrhyw opsiynau eraill i'w harchwilio.

## Eitem 6: Avara Foods

25. Ymunodd John Reed, Cyfarwyddwr Avara Foods, â'r cyfarfod i rannu rhai pethau a ddysgwyd yn sgil y gwaith a wnaed gan ei sefydliad. Dywedodd John y byddai'r drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar Loegr gan fod y rhan fwyaf o fusnes Avara yn deillio o'r ochr honno i'r ffin. Busnes dofednod mawr sy'n cynhyrchu brwyliaid a thyrcwn trwy Loegr yw Avara. Mae Swydd Henffordd yn un o'r prif ardaloedd gweithredu, ac yn y dalgylch hwnnw ceir oddeutu 120 o ffermydd yn y gadwyn gyflenwi – o blith y rhain, mae cant ohonynt yn Swydd Henffordd.

26. Trafododd John y cyhuddiadau cyffredinol mewn perthynas â dofednod ac, yn arbennig, Avara, fel prif lygrwr yr afon. Esboniodd John mai'r prif bryder yw diffyg gwyddoniaeth a data'n ymwneud â'r mater hwn. Ysgogwyd Avara i wneud rhywbeth ynghylch hyn gan Brosiect RePhOKUs Prifysgol Caerhirfryn. Mae Avara yn cydnabod y problemau o ran yr afon ac mae'n hollol ymwybodol o gyflwr yr afon – yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn sicr nid yw pethau wedi bod cystal ag y dylent fod. Darllenodd Avara adroddiad RePhOKUs Prifysgol Caerhirfryn. Mae'r cwmni o'r farn fod cyfeiriad yr adroddiad yn gywir, ond mae ganddo rai pryderon ynglŷn â'r manylion a'r niferoedd (e.e. mae rhai pethau wedi'u seilio ar dablau braidd yn hen). Hefyd, mae gan Avara ddiddordeb yn y nifer o wyddonwyr dinesig sy'n samplu systemau'r afon a soniodd John am y gwaith a wneir gan Brifysgol Caerdydd, ond nid yw wedi gweld canlyniadau'r gwaith hwnnw eto.

27. Oherwydd diffyg data, roedd Avara o'r farn y dylai wneud ei waith ymchwil ei hun ac roedd eisiau edrych ar fewnbynnau-allbynnau ffosfforws yn y gadwyn gyflenwi a cheisio chymharu'r canfyddiadau (pan fo modd) â'r adroddiad RePhOKUs. Aeth y cwmni ati i gyfrifo a chymryd samplau o dail a charthion oddi ar bob un o'i ffermydd.

28. Yn ôl John, y peth cyntaf yr edrychodd y cwmni arno oedd ei gydbwysedd ei hun o ran mewnbynnau-allbynnau. Daw'r mewnbynnau ffosfforws o du bwyd, a chyfrifwyd y mewnbynnau hyn ar sail deietau (deunyddiau crai) a faint o ffosfforws a gyflwynir i'r gadwyn gyflenwi. Aeth Avara ati i gyfrifo tablau ar gyfer yr hyn a geir yn y cynnyrch a'r hyn a gaiff ei ysgarthu gan yr adar yn y pen draw. Aethpwyd ati i gasglu a phrofi samplau o garthion i wirio bod y cyfrifiadau'n gywir.

29. Trafododd John niferoedd lefel uchel – mae'r cwmni'n cynhyrchu oddeutu 160,000 tunnell o dail dofednod ac oddeutu 800 tunnell o ffosfforws trwy'r gadwyn gyflenwi. Yn ddiddorol ddigon, dywedodd John fod yr adroddiad RePhOKUs yn nodi bod y niferoedd oddeutu 250,000 tunnell o ffosfforws ar gyfer yr holl ddofednod ac yn 6100 tunnell ar gyfer yr holl dda byw. Dywedodd John fod Avara wedi rhannu'r data gyda Phrifysgol

Caerhirfryn a bod staff y Brifysgol wedi cysylltu wedyn i ddweud eu bod yn cytuno â niferoedd Avara. Trafododd John y tablau cychwynnol a'r anghysondebau wrth ddefnyddio data sydd wedi dyddio. Mae hi'n bwysig meddu ar ddata da yn gyffredinol, a rhaid i'r data hwnnw fod yn gyfredol.

30. Esboniodd John yr hyn sy'n digwydd i'r tail dofednod a gynhyrchir. Caiff rhywfaint o'r tail ei ddefnyddio gan y ffermwyr ar eu tiroedd eu hunain, caiff rhywfaint ohono ei werthu gan y ffermwyr i ffermwyr eraill, caiff rhywfaint ohono ei werthu y tu allan i'r dalgylch, caiff rhywfaint ohono ei ddefnyddio mewn safleoedd treulio anaerobig neu ei werthu i safleoedd o'r fath, a chaiff rhywfaint ohono ei ddefnyddio mewn llosgwyr sbwriel ffermydd sy'n cynhyrchu gwres neu bŵer. Atgoffodd John y grŵp fod ffermydd brwyliaid yn cadw'r adar o dan do, felly ni cheir cysylltiad uniongyrchol rhwng yr adar a'r tir (na'r afon) hyd nes y symudir y tail. Ymhellach, mae'r tail yn sych ac yn hawdd iawn ei gludo (e.e. ei lwytho ar lorïau a'i gludo i rywle arall). Ond gyda dofednod maes ar y llaw arall, mae yna botensial y bydd dŵr ffo yn llifo oddi ar y safleoedd.

31. Y llynedd, cyhoeddodd Avara ddatganiad cyhoeddus yn nodi y bydd, fel busnes, yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros y ffosffad yn ei gadwyn gyflenwi. Hefyd, bydd Avara yn lleihau'r ffosffad er mwyn sicrhau na fydd y cwmni'n cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at lygredd posibl yn yr afon. Erbyn Ionawr 2025, bydd tail Avara yn cael ei drosglwyddo i ffermwyr sy'n ei gynhyrchu eu hunain ac sy'n ei ddefnyddio ar eu tiroedd eu hunain neu trwy eu safle treulio anaerobig eu hunain, ond bydd cynllun llym ar gyfer rheoli maethynnau a phridd yn berthnasol i'r broses hon. Hefyd, mae Avara yn mynd i'r afael â gwaith i ganfod proses ar gyfer dilysu trydydd partïon. Bydd Avara yn parhau ar y ffermydd hynny sy'n defnyddio llosgwyr sbwriel (oherwydd caiff y sbwriel ei droi'n lludw wrth ei losgi) cyn belled ag y bydd y lludw'n cael ei symud o'r dalgylch. Bydd unrhyw dail dros ben yn cael ei drosglwyddo i un o blith dau safle treulio anaerobig uwch nad ydynt wedi'u hadeiladu eto. Yn y tymor byr, bydd Avara yn cludo mwy o dail allan o'r dalgylch hyd nes y caiff y safleoedd hynny eu hadeiladu (os cânt eu hadeiladu). Trafododd John y broses treulio anaerobig uwch a rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â hi.

32. Rhoddodd John ddiweddariad byr ynglŷn â'r cynnydd o ran y cynllun. Hyd yn hyn, mae oddeutu 30% o'r tail yn cael ei symud o'r dalgylch a bydd y ganran hon yn cynyddu dros amser.

33. Awgrymodd John mai'r hyn sy'n digwydd i'r tail yw hanfod y broblem, yn hytrach na faint o adar neu anifeiliaid sydd gennych. Mae pob ffermwr yn gwneud dewis o ran yr hyn a rydd ar y tir, ac os caiff tail dofednod ei ddefnyddio'n briodol, ni ddylai arwain at broblemau. Dywedodd John ei fod wedi gweld enghreifftiau da iawn o bobl yn defnyddio profion pridd a chynlluniau rheoli maethynnau. Ond dywedodd hefyd ei fod wedi gweld enghreifftiau gwael iawn. Rhaid i bawb wneud eu gwaith yn briodol; fel arall, ni fydd modd inni leihau'r tail sydd dros ben ac, yn bwysicach fyth, ni fydd modd dechrau ymdrin â'r lefelau etifeddol yn y tir.

34. Soniodd John am rai heriau eraill, megis ffynonellau ffosffad posibl eraill, deddfwriaethau, ac adnoddau ar gyfer gwell gorfodi. Yn ôl John, mae'r drefn orfodi wedi bod yn wael iawn dros y blynyddoedd, ond dim ond ynglŷn â'i brofiad yn Lloegr y gall siarad. Dywedodd John nad beirniadaeth ar unigolion mo hyn, ond beirniadaeth ar lefel yr adnoddau sydd ar gael. Nododd John nad yw'n galw am ychwaneg o ddeddfwriaeth, ond ei fod yn hytrach yn galw am orfodi gwell. Asiantaeth yr

Amgylchedd sy'n gyfrifol am orfodi yn Lloegr, a CNC yng Nghymru; ond hefyd, gellid gorfodi trwy ddefnyddio cynlluniau gwarantu neu ddulliau eraill.

35. Yn ôl John, mae hi'n amser inni roi'r gorau i ystyried niferoedd penodol o anifeiliaid. Awgrymodd John fod angen i bob fferm wneud ei chyfrifiadau ei hun o ran mewnbynnau-allbynnau. Hefyd, rhaid inni ateb rhai cwestiynau hollbwysig, megis beth yw'r cydbwysedd gros o ran mewnbynnau-allbynnau; a oes gan y dalgylch ormod o dail neu gapasiti mewn mannau; os oes yna ormod o dail, beth ydym yn mynd i'w wneud ag ef neu sut gallwn ei ailddosbarthu?

36. Trafododd John y gwahaniaethau rhwng gwahanol fentrau amaethyddol a faint o adnoddau sydd ar gael i ffermwyr. Awgrymodd John y gallai cydweithredu a thechnoleg helpu ffermwyr i ddefnyddio rhywfaint o'r deunydd dros ben.

37. Trafododd John ddulliau 'moronen a ffon' a dywedodd fod angen canllawiau da, cymorth ymarferol, cymorth ariannol, a threfniadau gorfodi a chosbi gwell. Ni fydd cynlluniau gwirfoddol yn llwyddo, oherwydd bydd opsiwn 'optio allan' wastad ar gael. Rhaid inni orfodi'r cynlluniau. Bydd hynny'n sicrhau tegwch i bawb a bydd yn ein galluogi i ddiogelu ein hamgylchedd a'n hafonydd i raddau mwy.

38. Dywedodd John fod siwrnai Avara wedi bod yn rhwystredig; ond Avara yw'r unig gwmni sydd wedi mentro yn y maes hwn. Mae'n fater cymhleth, ac mae'n ehangach nag amaethyddiaeth yn unig. Ond yn amlwg mae amaethyddiaeth yn hollbwysig, a bydd yn rhaid i bob un ohonom gymryd camau o ryw fath os ydym ar gyflawni'r amcanion sydd gennym o dan sylw.

39. Mae ychwaneg o fentrau i'w cael yn Swydd Henffordd ac mae enghreifftiau da yn dechrau dod i'r amlwg. Pur anaml mae busnesau'r chwartel uchaf yn achosi problemau, oherwydd yn gyffredinol maent yn gwneud pethau yn y ffordd iawn. Busnesau yn y chwartel isaf sydd fel arfer yn achosi problemau mawr; rywsut, bydd yn rhaid inni ymdrin â hyn.

40. Ar lefel gros, mae angen inni ddeall y mewnbynnau/allbynnau ar gyfer y dalgylch a hefyd ar lefel busnesau fferm. Nid gwaith anodd mo hwn, ond bydd angen amser i'w wneud. Awgrymodd John y gallai pob fferm gynnal profion pridd a llunio cynllun maethynnau; ond bydd gwaith o'r fath yn arwain at gost, felly efallai y bydd angen cymorth ar ei gyfer.

41. Dywedodd John fod Llywodraeth Gogledd Iwerddon yn bwriadu talu'r costau ar gyfer cynnal profion pridd ar bob cae unigol yng Ngogledd Iwerddon.

42. Dywedodd John fod Avara yn eithaf di-ildio gyda'r ffermwyr yn y gadwyn gyflenwi, gan fod hynny o fewn gallu'r cwmni. Mae Avara yn cydnabod na fydd yr holl ffermwyr yn hapus gyda hyn, ond nid yw'r cwmni'n disgwyl i'r ffermwyr golli unrhyw incwm o ganlyniad i'r hyn mae'n ceisio'n wneud. Bydd Avara yn gafael yn dynnach o lawer yn y ffrwynau nag a wnaethpwyd yn y gorffennol.

43. Diolchodd Rhys i John am ei ddiweddariad ac am drafod yr heriau'n onest. Braf yw clywed am y gwaith a wneir gan Avara, yn enwedig y syniad o ysgwyddo cyfrifoldeb dros ffosffadau yn y gadwyn gyflenwi.

44. Cyflwynodd Creighton Harvey ei hun i John. Dywedodd Creighton fod John wedi paratoi'n dda iawn ar gyfer ei sgwrs gerbron y grŵp a'i fod eisoes wedi ateb nifer o'r

cwestiynau y byddai Creighton wedi'u gofyn. Gan ddwyn geiriau John i gof, dywedodd Creighton fod gan Avara gyfanswm o 120 o ffermydd yn y dalgylch a bod 100 ohonynt yn Swydd Henffordd; gofynnodd faint ohonynt sydd yng Nghymru. Dywedodd John fod yr 20 sy'n weddill wedi'u lleoli yng Nghymru. Ceir 120 o ffermydd yn y dalgylch, ond mae gan Avara ffermydd mewn mannau eraill yn Lloegr hefyd. Dywedodd Creighton mai'r 120 o ffermydd o dan sylw yw'r ffermydd a fyddai'n effeithio ar Afon Gwy (e.e. mae'r afon yn croesi'r ffin) a gofynnodd a oes gan Avara unrhyw gynlluniau i ymestyn yng Nghymru? Nac oes, oedd ateb John. Yn wir, mae Avara yn lleihau rhywfaint ar y niferoedd. Trafododd John yr effaith ar lefel leol a chymunedol yn sgil cyflogaeth, cynhyrchu bwyd o ansawdd da, bwydo pobl, yr allbynnau, a'r llygryddion posibl. Gofynnodd Creighton sut mae Avara yn rheoli neu'n monitro ffermydd sy'n perfformio'n wael. Dywedodd John fod gan Avara gontract gyda'r holl ffermydd, ac o'r herwydd bod gan y cwmni rywfaint o reolaeth dros bethau. Mae Avara yn dymuno cael dulliau dilysadwy o reoli maethynnau pridd ar gyfer trydydd partïon, a gaiff eu harchwilio bob blwyddyn.

45. Roedd Ieuan yn falch o glywed sylwadau John ynglŷn â'r angen am brofion pridd a gwaith monitro, oherwydd ceir bwlch data o'r fath trwy'r diwydiant amaethyddol i gyd.

46. Roedd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, yn falch iawn o glywed am y camau arloesol a gymerwyd gan Avara fel cwmni. Mae ffermydd dofednod wastad wedi bod yn rhan o rwydwaith arddangos Cyswllt Ffermio. Holodd Einir a yw Avara wedi mynd i'r afael â gwaith yn ymwneud â phennu ôl troed carbon. Do, oedd ateb John – dechreuodd Avara bennu ei ôl troed carbon ddwy flynedd yn ôl; hefyd, dros gyfnod o dair blynedd, bydd Avara yn pennu ôl troed carbon pob un o'i ffermydd, a bydd yn mynd ati i wneud hynny'n flynyddol. Fel busnes, mae Avara wedi pennu ei ôl troed carbon o'r dechrau i'r diwedd ac mae'n pennu ôl troed carbon ar y ffermydd. Mae Avara wedi dewis un dull er mwyn iddo allu cymharu elfennau tebyg ar draws ffermydd. Gwelir bod yr ôl troed carbon mwyaf yn deillio o'r elfen fwydo, gan fod y cwmni'n cynhyrchu ei fwyd ei hun. Mae Avara wedi ymgorffori hynny yn ei becyn maeth hefyd.

47. Cyfeiriodd David Ball at y sylw bod oddeutu 30% o'r tail dofednod yn mynd allan o'r dalgylch ar hyn o bryd, ond bod Avara yn dymuno i'r ffermwyr gadw'r tail ar eu tiroedd eu hunain erbyn 2025. Eglurodd John fod 30% yn llai o dail yn mynd ar y tir yn y dalgylch yn awr, naill ai gan ei fod yn cael ei symud ymaith neu gan fod rhywfaint ohono'n cael ei losgi mewn llosgwyr sbwriel. Mae Avara yn dymuno rheoli hyn yn eithaf llym; wedyn, bydd modd i ffermwyr sy'n cynhyrchu tail ac sy'n berchen ar eu tir eu hunain ddefnyddio'r swm o dail y caniateir iddynt ei ddefnyddio yn ôl eu cynllun rheoli maethynnau pridd, a bydd unrhyw dail dros ben yn cael ei symud oddi ar y fferm. Bydd yn rhaid i'r tail sydd ar ôl adael y fferm; ond yn hytrach na chael ei roi i'r ffermwr drws nesaf, bydd yn cael ei roi i gyflenwad enwebedig.

48. Wrth brosesu tail trwy ddefnyddio safle treulio anaerobig, gofynnodd David a fydd y ffosffad yn benodol yn dal i fod yn bresennol yng ngweddillion y treuliad anaerobig (e.e. mae gweddillion y treuliad anaerobig yn dal i fod yn allbwn). Bydd, oedd ateb John – nid yw gweddillion treuliad anaerobig ar y ffurf grai honno yn ddim gwahanol, a rhaid eu rheoli yn yr un modd o fewn y cynllun maethynnau. Mae safleoedd treulio anaerobig newydd yn cymryd y gweddillion hynny ac yn eu prosesu ymhellach, felly ni fydd unrhyw weddillion treuliad anaerobig yn dod allan.

49. Diolchodd Bernard i John am godi cwestiynau ynglŷn â'r data ar gyfer cyfraniad y diwydiant amaethyddol yn y ddadl ynghylch ffosffadau. Yng Nghymru, dywedodd

Bernard ein bod ar siwrnai uwchgynhadledd ffosffadau gydag amryfal randdeiliaid a bod grŵp yn cael ei ffurfio i ystyried masnachu maethynnau a gwrthbwyso maethynnau. Soniodd Bernard am y ffigurau a gyflwynodd John, sy'n awgrymu bod llawer llai o ffosfforws yn deillio o amaethyddiaeth. Soniodd Bernard am dreial arfaethedig a gaiff ei archwilio gan y grŵp masnachu a gwrthbwyso newydd yn nalgylch Afon Wysg gyda Dŵr Cymru a datblygwyr tai i ystyried ffynhonnell y ffosffad a defnyddio'r sector amaethyddol i wrthbwyso cyfraniadau ffosffad yr awdurdodau dŵr a'r datblygwyr. Ond gan fod John wedi dweud bod llai o ffosffadau'n deillio o amaethyddiaeth, siawns bod hyn yn effeithio ar allu'r sector amaethyddol i weithredu fel 'dull gwrthbwyso' ar gyfer grwpiau eraill. Dywedodd John ei fod yn teimlo braidd yn nerfus ynglŷn â gwrthbwyso – rhaid inni leihau'r broblem yn hytrach na'i throsglwyddo i rywun arall. Awgrymodd John y dylai ffermwyr gyfrifo eu mewnbynnau/allbynnau eu hunain. Rhaid i bob un ohonom esgor ar atebion arloesol i ddelio â'r broblem.

50. Gofynnodd Ieuan a fyddai'n iawn iddo gysylltu â John a'i wahodd i un o gyfarfodydd y Grŵp Technegol Amaethyddol yn y dyfodol, sy'n canolbwyntio ar y broblem ffosffadau. Cytunodd John.

51. Diolchodd Rhys i John am ymuno â'r cyfarfod a dywedodd y byddai'r grŵp yn awyddus i glywed am unrhyw ddatblygiadau'n ymwneud â gwaith ymchwil mewnol Avara yn y dyfodol.

## Eitem 7: Unrhyw fater arall

52. Aeth Dennis ati i holi Matthew Walters, Llywodraeth Cymru, ynglŷn â'r ddogfen Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: Tenantir – Cwestiynau Cyffredin. Dywedodd Matthew fod y ddogfen Cwestiynau Cyffredin wedi'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru am gyfnod – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Tenantir – Cwestiynau Cyffredin.

    Dywedodd Dennis fod gan Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, raglen o ddigwyddiadau er mwyn helpu i wneud ffermwyr yn fwy ymwybodol o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Roedd un o'r digwyddiadau hyn ar ffurf cyfarfod ar y fferm, yn benodol ar gyfer tenantiaid. Gofynnodd Dennis a oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud yn hyn o beth. Dywedodd Matthew fod y digwyddiadau wedi'u trafod gyda Cyswllt Ffermio, yn enwedig mewn perthynas â sut datblygodd y rhaglen. O ran digwyddiad penodol ar y fferm, mae'n bosibl y bydd modd ystyried hyn eto, ond yn ôl pob tebyg bydd yn canolbwyntio mwy ar seilwaith. Awgrymodd Matthew y gallai sôn am hyn wrth Einir a Cyswllt Ffermio i weld os / sut gallai hynny weithio yn enwedig gyda safleoedd arddangos newydd Cyswllt Ffermio. Llwyddwyd i gyflawni'r rhan fwyaf o bethau trwy gyfrwng digwyddiadau Cyswllt Ffermio.

53. Bydd cyfarfod nesaf Is-grŵp y Fforwm yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb ddydd Llun 19 Mehefin 2023. Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi trefnu i ffermwyr Grŵp Dŵr y Bannau gynnal ymweliad safle ar gyfer y grŵp. Bydd rhagor o fanylion ar gael maes o law.

54. Ni chrybwyllwyd unrhyw fater arall.